Cyngor Cymuned Llanbedr-y-Fro
Polisi Pryderon a Chwynion

Adolygwyd: Hydref 2026

Cymeradwywyd: 13 Hydref 2026 – Cofnod 10/13

Dyddiad yr Adolygiad Nesaf: Hydref 2027

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Cymuned Llanbedr-y-Fro wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel i drigolion a rhanddeiliaid. Mae'r Cyngor yn croesawu sylwadau, pryderon a chwynion yn Gymraeg ac yn Saesneg fel cyfleoedd i wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu.

2. Cwmpas y Polisi

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bryderon, sylwadau a chwynion ynghylch gwasanaethau, gweithredoedd neu benderfyniadau'r Cyngor.

Nid yw'r polisi'n berthnasol pan fo proses apelio statudol ar wahân neu pan fo gweithdrefn ffurfiol arall ar gael o dan y gyfraith.

3. Mynegi Pryder

Mae'r Cyngor yn annog pobl i fynegi pryderon yn anffurfiol lle bo hynny'n bosibl, gan y gellir datrys llawer o faterion yn gyflym ac yn effeithiol heb gyflwyno cwyn ffurfiol.

Gellir mynegi pryderon drwy'r dulliau canlynol:

E-bost: council@peterstonsuperely.org
Ffôn: 07380 137056
Drwy'r post:
Y Clerc
Victoria Andrew
11 Georgian Way
Miskin
Pontyclun
RCT
CF72 8SG

4. Cyflwyno Cwyn Ffurfiol

Os na ellir datrys mater yn anffurfiol, gellir cyflwyno cwyn ffurfiol drwy unrhyw un o'r dulliau cysylltu a restrir uchod.

Dylai achwynwyr ddarparu digon o wybodaeth am y mater, gan gynnwys dyddiadau perthnasol, manylion a'r canlyniad y maent yn dymuno ei gael.

5. Ein Hymateb

Bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn cwyn o fewn pum diwrnod gwaith, yn ymchwilio i'r mater yn deg ac yn ddiduedd, ac yn anelu at ddarparu ymateb llawn o fewn ugain diwrnod gwaith. Pan fydd angen rhagor o amser, bydd yr achwynydd yn cael gwybod.

6. Cwynion sy’n Cynnwys Mwy nag Un Sefydliad

Pan fydd cwyn yn ymwneud â mwy nag un sefydliad, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r sefydliadau perthnasol i gydlynu ymateb a sicrhau bod y mater yn cael ei drin yn briodol.

7. Gwasanaethau a Ddarperir ar Ran y Cyngor

Pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu gan gontractwyr neu sefydliadau eraill sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, gellir cyfeirio cwynion at y sefydliad hwnnw yn y lle cyntaf er mwyn iddo ymchwilio iddynt ac ymateb.

8. Cymorth a Hygyrchedd

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio'r broses gwyno. Bydd cymorth ac addasiadau rhesymol yn cael eu darparu pan fo angen.

9. Dysgu o Gwynion

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cwynion yn ffynhonnell werthfawr o adborth. Bydd gwybodaeth a gesglir drwy gwynion yn cael ei hadolygu'n rheolaidd er mwyn nodi gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd i wella.

10. Adolygiad Pellach a Chyrff Allanol

Os bydd achwynydd yn parhau'n anfodlon ar ôl cael ymateb gan y Cyngor, gall gysylltu â Chomisiynydd y Gymraeg neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle bo hynny'n berthnasol.

11. Cyfrinachedd a Diogelu Data

Bydd pob pryder a chwyn yn cael eu trin yn sensitif ac yn gyfrinachol. Bydd gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol.

12. Adolygu’r Polisi

Fel arfer, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol, neu'n gynharach os bydd newidiadau deddfwriaethol, rheoleiddiol neu weithredol yn golygu bod angen ei ddiwygio.